



# Newsletter

**Greener Aberystwyth Group**

[www.aber-gag.org.uk](http://www.aber-gag.org.uk)

**No. 7 May 2010**

**Editor: Laurie Wright**



## **Wildlife Garden in Penparcau**

Aberystwyth Wildlife Watch was set up by the Wildlife Trust of South & West Wales & is run by students from the university to help teach kids about nature through games & activities which take place mainly outdoors. With funding provided by the Joy Welch Education Trust and help from volunteers such as GAG it is hoped to create a wildlife garden in a patch of land at the back of the school adjacent to Penparcau Community Woodland. This will merge the two habitats and create a home for the local wildlife & a space for school children to enjoy learning about nature. A garden design plan was drawn up by professional garden designer Shani Lawrence and clearance work is already taking place.

*Steph Kent*

## **Plascrug Avenue: a little local patch**

I am a firm believer that birds can be found almost anywhere. Like many people interested in birds I like to visit the hotspots, but also get a great deal of satisfaction from my local patch. For me, Plascrug Avenue fits the bill. It has a variety of birdlife to maintain my interest and is small enough to cover during a lunch break. So writes *Harry Pepper* in an article about the winter birds of Plascrug in the *Ceredigion Bird Report 2008*.

**Blackbirds** are present all along the avenue, often accompanied by a few **Song Thrushes**, while **Redwings** are sometimes found in the trees at the cemetery, with occasional **Fieldfares** preferring the adjacent playing field. The mature trees, bushes and hedgerows hold **Chaffinches**, **Greenfinches**, **Great and Blue Tits**, while the commonest bird is the **Robin**. **Wrens** can be seen at close range foraging the low vegetation, with parties of **Long-tailed Tits** and **Goldfinches** preferring the area between the Rheidol Retail Park and the Crown Building.

Less regular are **Nuthatch**, **Treecreeper** and **Goldcrest**, while the tall trees near the cemetery provide occasional sightings of **Coal Tit** and **Siskin**. Each autumn I await the first **Kingfisher**, when a careful approach to favoured stretches of the ditch will provide good views. It was on one of these approaches that I flushed my first **Jack**

**Snipe**, but during a cold snap **Common Snipe** may turn up. During spells of cold weather a **Little Egret** has taken up residence, providing interest even among non-birders. On one occasion it brought work in a Crown Building office to a standstill as it struggled for 20 minutes trying to swallow an eel.

A new bird was added to my Aberystwyth list in February 2008 when, approaching the far end of the ditch, I was surprised to find myself looking at a **Water Rail**, which stayed for another two weeks. This was a very productive period. During one lunchtime walk lasting only half an hour, I saw Little Egret, Kingfisher, Water Rail and Snipe as well as the usual small birds and even had a **Kestrel** flying over to finish off.

Not all visits produce such birds, but even on the quietest of days it is good to get out in the fresh air to have a look, before returning to work refreshed and wondering what the next day will bring.

## **Garden Trees**

People living within the Aberystwyth and Llanbadarn Fawr Conservation Areas should be aware of certain regulations regarding the management of trees in their gardens. In essence, subject to a few exceptions, the County Council requires 6 weeks notice of any proposal to cut down or carry out work on any tree. The Council has a useful leaflet which gives further details. They are also available on their website (<http://www.ceredigion.gov.uk>) or from the Coast and Countryside Section at Penmorfa, Aberaeron (Tel 01545 570881).

## **Street Trees**



GAG was consulted about Council plans to deal with diseased trees in St David's Road, and to replace missing ones. Similar work will be carried out in Iorwerth Avenue.

## **Aber is Green festival (22-26 May)**

A 5-day festival, from Saturday 22nd May to Wednesday 26th May 10am to 8pm, in the Bandstand on the Prom.

How to lower your carbon footprint, fashion show, activities for children, tea and chat, live music, etc. etc... See a poster for details and times, or visit

[www.aberisgreen.org.uk](http://www.aberisgreen.org.uk)

# Cylchlythr



Rhifyn 7 Mai 2010  
Golygydd: Laurie Wright

Grŵp Aberystwyth Gwyrddach  
[www.abergag.org.uk](http://www.abergag.org.uk)



## Gardd Bywyd Gwyllt ym Mhenparcau

Sefydlwyd *Aberystwyth Wildlife Watch* gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru. Myfyrwyr prifysgol sy'n ei redeg er mwyn dysgu plant am natur, trwy chwarae a gweithgareddau yn yr awyr agoredam y rhan fwyaf. Gyda chymorth ariannol gan y *Joy Welch Education Trust* a help gwirfoddolwyr, gan gynnwys GAG, gobeithir creu gardd i'r bywyd gwyllt tu ôl i'r ysgol wrth ochr Coetir Cymunedol Penparcau. Bydd hwn yn cysylltu'r ddau gynefin, gan greu cartref i'r bywyd gwyllt lleol yn ogystal â safle i blant ysgol fwynhau dysgu am natur. Gosodwyd cynllun gan y cynlluniwr gardd profesiynol Shani Lawrence. Mae'r gwaith o glirio'r safle wedi dechrau.

*Steph Kent*

## Rhodfa Plascrug: llecyn bach lleol

Rydw i'n credu'n gryf fod adar i'w cael ym mhobman. Fel llawer o'r rhai sydd â diddordeb mewn adar, rydw i'n hoffi ymweld â "hotspots", ond mae fy milltir sgwâr yn rhoi llawer o foddhad i mi. Yn fy marn i, mae Rhodfa Plascrug yn siwtio i'r dim. Mae'r adar yn ddigon amrywiol i gadw fy niddordeb i, ac mae'n ddigon bach i weld y cyfan yn yr awr cinio. Dyna farn *Harry Pepper* mewn erthygl am adar y gaeaf Plascruf yn y "Ceredigion Bird Report 2008".

Mae **Adar duon** ar hyd y rhodfa, gan amlaf yng nghwmni ychydig o **Fronfreithod** (*Song Thrushes*). Yn achlysurol ceir **Cochion Dan-adain** (*Redwings*) yng nghoed y fynwent, gydag ambell un **Socan Eira** (*Fieldfare*) yn dewis y meysydd chwarae cyfagos. Gwelir **Ji-bincod** (*Chaffinches*), **Llinosod gwyrdd** (*Greenfinches*), **Titwod mawr** (*Great tits*), **Titwod Tomos las** (*Blue tits*) yn y coed llawn dwf, y llwyni a'r cloddiau, a'r aderyn mwyaf cyffredin yw'r **Robin Goch**. Gwelir **Drywod** (*Wrens*) yn agos, yn chwilota yn y llwyni, tra bod heidiau o **Ditwod Cynffon-hir** (*Long-tailed tits*) a **Nicos** (*Goldfinches*) yn dewis y ardal rhwng Parc Siopa Rheidol ac Adeilad y Goron.

Yn llai aml, ceir **Delor y Cnau** (*Nuthatch*), **Dringwr Bach** (*Treecreeper*) neu **Dryw Eurben** (*Goldcrest*), a gwelir **Titw Penddu** (*Coal Tit*) neu **Pila Gwyrdd** (*Siskin*) yn y coed uchaf wrth y fynwent. Bob

hydref, byddaf yn disgwyl **Glas y Dorlan** (*Kingfisher*) cyntaf: cewch olygfeydd da os ydych chi'n ofalus wrth fynd yn nes at ei hoff gynefinoedd. Unwaith, wrth fynd yn agos, codais y **Giach Bach** (*Jack Snipe*) am y tro cyntaf, ond mewn ysbaid oer, ceir y **Giach Cyffredin** (*Common Snipe*). Yn y tywydd oer, ymgartrefodd **Crëyr Bach Copog** (*Little Egret*), gan dynnu sylw rhai nad oedd yn wylwyr adar. Unwaith, stopiodd gwaith yn Adeilad yn Goron yn stond wrth ymdrechu am ugain munud i lynu llysywen.

Ychwanegais aderyn newydd i fy rhestr ym mis Chwefror 2008 wrth nesáu at ben eithaf y deitsh, pan welais, er fy mawr syndod, **Rhegen y Dŵr** (*Water Rail*), a arhosodd am ddau wythnos. Adeg ffrwythlon iawn oedd hynny. Wrth gerdded am ddim ond hanner awr, amser cinio, roeddwn i'n gweld Crëyr Bach Copog, Glas y Dorlan, Regen y Dŵr a Giach, yn ogystal â'r adar mân arferol, ac i gau pen y mwdwl, hedfanodd **Cudyll coch** (*Kestrel*) dros ein pennau.

Ni welir y fath adar bob tro, ond hyd yn oed ar ddiwrnod tawel iawn, mae'n braf mynd yn yr awyr agored i edrych, cyn dychwelyd i'r gwaith wedi dadflino, ac gan feddwl beth fydd y diwrnod nesaf yn ei gynnig.

## Coed Ein Gerddi

Dylai pobl sy'n byw y tu fewn i Ardal Gadwraeth Aberystwyth a Llanbadarn Fawr fod yn ymwybodol o rai rheolau ynglŷn â thrin coed yn eu gerddi. Yn y bôn, gydag ychydig o eithriadau, mae rhaid rhoi rhybudd o 6 wythnos i'r Cyngor Sir cyn torri neu drin unrhyw goeden. Ceir rhagor o fanylion mewn taflen ddefnyddiol gan y Cyngor. Mae hi hefyd ar gael ar eu gwefan (<http://www.ceredigion.gov.uk>) neu oddi wrth yr Adran Arfordir a Chefyn Gwlad ym Mhenmorfa, Aberaeron (ffôn 01545 570881).

## Coed yn ein Strydoedd



Ymgynghorodd y Cyngor â GAG ynglŷn â chynlliniau i drin coed heintiedig yn Ffordd Dewi Sant, ac ail-blannu coed sydd yn eisiau. Bydd gwaith tebyg yng Nghoedlan Iorwerth.

## Gŵyl Werdd Aberystwyth (22-26 Mai)

Gŵyl 5 diwrnod, o ddydd Sadwrn 22 Mai i dydd Mercher 26 Mai, 10 am - 8 pm, yn y "Bandstand" ar y Prom. Sut i leihau eich ôl troed carbon, sioe ffasiwn, gweithgareddau i blant, tê a sgwrs, cerddoriaeth byw, etc. etc.... Manylion ac amserau ar y posteri neu ar [www.aberisgreen.org.uk](http://www.aberisgreen.org.uk).